



Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

Ysgol Gynradd Pencarnisiog

**Pencarnisiog
Ty Croes
LL63 5RY**

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2024

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Pencarnisiog

Enw'r darparwr	Ysgol Gynradd Pencarnisiog
Awdurdod lleol	Cyngor Sir Ynys Môn
Iaith y darparwr	Cymraeg
Math o ysgol	Cynradd
Cymeriad crefyddol	
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	69
Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol	49
Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yn berthnasol)	9
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%)	11.6%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%)	10.2%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	89.8%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	0.0%
Dyddiad penodi'r pennaeth	Ionawr 2016
Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol)	02/02/2016
Dyddiad dechrau'r arolygiad	11/03/2024

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
[Fy Ysgol Leol \(gov.wales\)](https://gov.wales)

- a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

Trosolwg

Mae Ysgol Pencarnisiog yn gymuned ddysgu hapus a gofalgar lle mae disgyblion yn dysgu'n hyderus ac yn chwarae gyda'i gilydd yn ddedwydd. Mae bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel, ac maent yn gwybod bod oedolion yn yr ysgol yn gofalu amdanynt ac y gallant droi atynt pan fyddant yn wynebu heriau neu anawsterau. O oedran ifanc iawn, maent yn ffurfio perthnasoedd gweithio cryf â'i gilydd a staff, sy'n cefnogi disgyblion i ddangos parch a chwarteisi at bob aelod o gymuned yr ysgol. O ganlyniad, mae ymddygiad bron bob disgybl yn rhagorol yn y sesiynau dysgu ac wrth symud o amgylch yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn hyderus ac yn defnyddio'r iaith yn gwbl naturiol y tu fewn a thu allan i'r dosbarth, ac yn ymfalchïo yn eu Cymreictod, eu treftadaeth a'u hysgol. Mae disgyblion yn datblygu llais cryf yn yr amgylchedd dysgu ac yn cael dylanwad ac effaith gadarnhaol ar fywyd ehangach yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos cynnydd cryf o'u manau cychwyn mewn ystod dda o fedrau, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae medrau digidol a chreadigol bron bob disgybl yn datblygu'n gadarn ac yn elfen nodedig o'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i'r disgyblion hynaf ddatblygu eu medrau ysgrifennu'n estynedig mewn gwahanol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm.

Mae staff yn darparu ystod gyfoethog a chytbwys o brofiadau dysgu sy'n diwallu anghenion a diddordebau dysgu ehangach y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r ddarpariaeth yn magu annibyniaeth gynyddol ymysg y disgyblion, ac maent yn dyfalbarhau'n effeithiol yn ystod eu gweithgareddau yn y dosbarth ac yn yr ardaloedd dysgu tu allan.

Mae athrawon yn gosod amcanion dysgu clir ac yn datblygu'r gweithgareddau gyda rhediad sy'n addas i'r dysgu. Mae athrawon yn holi'r disgyblion yn effeithiol er mwyn eu hannog i feddwl a datblygu eu syniadau. Er hyn, nid yw adborth ysgrifenedig athrawon yn cefnogi disgyblion bob tro i wybod beth i'w wneud er mwyn gwella ansawdd eu gwaith.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth ysbrydoledig, effeithiol ac ystyriol. Darperir gwybodaeth reolaidd i rieni am ddigwyddiadau'r ysgol. Er hyn, nid yw'r dulliau cyfathrebu cytûn yn ddigon eglur ac effeithiol bob tro i rieni i adrodd yn gyson am les, dysgu a phresenoldeb eu plant.

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ohoni ei hun a phawb yng nghymuned yr ysgol i wneud eu gorau dros ddisgyblion. Mae gan y corff llywodraethol adnabyddiaeth dda o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Er hyn, nid ydynt yn darparu cydbwysedd priodol o gymorth a her yn ddigon effeithiol i gefnogi'r pennaeth i gyflawni ei dyletswyddau dysgu ac arwain yn llawn.

Argymhellion

- A1 Ehangu cyfleoedd i'r disgyblion hynaf ysgrifennu'n estynedig mewn gwahanol gyd-destunau
- A2 Gwella adborth athrawon i sicrhau bod disgyblion yn gwybod beth i'w wneud i wella ansawdd eu gwaith
- A3 Datblygu gweithdrefnau arweinyddiaeth effeithiol a chynaliadwy i gefnogi'r pennaeth i gyflawni ei dyletswyddau'n llawn
- A4 Gwella dulliau cyfathrebu cytûn gyda rhieni i sicrhau dealltwriaeth gyson wrth adrodd am les, dysgu a phresenoldeb eu plant

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Dysgu

Pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar fedrau sy'n briodol i'w hoedran a'u cam datblygu. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rheini sydd ag ADY, a'r rhai sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd cryf ar draws y meysydd dysgu o'u manau cychwyn unigol. Maent yn gwneud cynnydd da iawn yn eu medrau digidol, creadigol a'u medrau siarad Cymraeg. Mae cynnydd disgyblion yn y medrau hyn yn gryfderau nodedig yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau gwranddo a llafar yn gadarn ar draws yr ysgol. Yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn, maent yn datblygu eu medrau gwranddo'n effeithiol ac yn parchu cyfraniadau ei gilydd, er enghraifft wrth drafod a dewis pa ansoddeiriau sydd orau i ddisgrifio arth wen yr Arctig. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau llafar yn fedrus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn cyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaeth dosbarth gan fynegi eu barn yn glir ac aeddfed, er enghraifft wrth drafod ac esbonio nodweddion gofodwr effeithiol. Fel rhan o'u gwaith thema, maent yn cychwyn dysgu iaith dramor ac yn caffael patrymau iaith syml yn effeithiol, er enghraifft wrth addysgu Sbaeneg i 'Dafydd y Ddraig'.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod llythrennau a seiniau o oedran ifanc, ac yn defnyddio ystod briodol o strategaethau ffonig i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn defnyddio eu medrau

darllen yn hyderus i ddarllen llyfrau stori ac i drafod y cynnwys yn wybodus. At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau darllen yn llwyddiannus yn y ddwy iaith, yn enwedig yn y Saesneg. Maent yn amrywio goslef eu llais yn bwrpasol ac yn defnyddio atalnodi'n gywir i ddangos eu dealltwriaeth ac i ennyn diddordeb y gwrandäwr.

Mae medrau ysgrifennu cynnar disgyblion yn datblygu'n dda. Mae disgyblion y dosbarth meithrin a derbyn yn creu marciau'n llwyddiannus gan ddefnyddio amrywiaeth dda o gyfryngau. Erbyn Blwyddyn 3, maent yn ysgrifennu mewn ystod briodol o gyd-destunau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, er enghraifft wrth ysgrifennu darnau ymestynnol am chwedl Branwen. Wrth i'r disgyblion symud drwy'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau ysgrifennu Cymraeg a Saesneg mewn amrywiaeth o ffurfiau yn briodol. Er enghraifft, maent yn defnyddio berfau cryno a chymariaethau yn effeithiol wrth ysgrifennu dyddiadur faciwi yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Er hyn, nid yw'r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau ysgrifennu estynedig yn ddigon effeithiol ar draws y meysydd dysgu. Yn ogystal, nid ydynt yn gwella ansawdd eu gwaith yn ddigon cyson, sydd yn ei dro yn arafu eu cynnydd.

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae medrau mathemateg llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dysgu sut i ddefnyddio offer mathemategol yn hyderus, er enghraifft wrth ddefnyddio clorian yn gywir gan ddefnyddio unedau safonol i fesur pwysau ffrwythau yn annibynnol. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 3 yn dyblu a threblu rhifau dau ddigid yn llwyddiannus wrth dafu peli at fwrdd yn yr ardaloedd dysgu tu allan, er enghraifft. Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf ddealltwriaeth dda o gysyniadau mathemategol, gan gynnwys gweithdrefnau adio, tynnu, lluosu a rhannu. Maent yn cyfrifo arwynebedd a pherimedr siapiau rheolaidd yn ddeallus, ac yn deall y berthynas rhwng canran, degolion a ffracsiwn yn dda. Maent yn cymhwysu'u medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn cyd-destunau cyfoethog ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft wrth greu cronfa ddata am gysawd yr haul.

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae medrau digidol bron bob disgybl yn datblygu'n gadarn. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio glôb digidol yn lled annibynnol i gymharu nodweddion daearyddol Pencarnisiog a Threvelin yn fedrus, er enghraifft. Mae'r disgyblion hynaf yn creu cronfa ddata am loerenni'r gofod gan ddefnyddio fformiwlâu'n fedrus i ddadansoddi'r wybodaeth.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus. Fel rhan o sialens 'Tour de Môn', maent wedi beicio pellter llwybr arfordir Ynys Môn ar beiriant beicio dan-do. Mae llawer o ddisgyblion ym Mlwyddyn 1, 2 a 3 yn creu ac yn perfformio dawnsfeydd Hindwaidd i gynulleidfa yn hyderus.

Mae medrau creadigol ac artistig y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau gan ddefnyddio siswrn, glud a brwshys paent yn hyderus, er enghraifft wrth greu dreigiau lliwgar allan o ddeunyddiau amrywiol. Mae disgyblion ar draws yr ysgol wedi cydweithio'n frwdfrydig â cherddor lleol i gyfansoddi, perfformio a recordio anthem arbennig am eu hysgol sydd wedi dwysáu eu dealltwriaeth a'u gwerthfawrogiad am gerddoriaeth yn effeithiol.

Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn mwynhau mynychu'r ysgol ac yn teimlo'n hapus iawn o fewn ei hamgylchedd gynhwysol a gofalgaf. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus y bydd staff yn gwrando ar eu pryderon ac yn eu cynorthwyo'n briodol. Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn yr ysgol yn gryfder.

Bron heb eithriad, mae'r disgyblion yn deall rheolau'r ysgol, ac yn gwrando'n ofalus ar eu cyfoedion ac ar oedolion. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn rhagorol yn y sesiynau dysgu ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn foesgar ac yn dangos parch at y staff, ymwelwyr, a thuag at ei gilydd. Mae hyn yn nodwedd arbennig o ethos yr ysgol. Wrth symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ac yn parchu barn eu cyfoedion.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gofalu am eu lles emosiynol ac yn cael cyfleoedd pwrpasol i drafod eu teimladau yn ddyddiol. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn mynegi eu teimladau ar siart tu allan i'r dosbarth. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn cymryd rhan mewn sesiynau amser cylch buddiol, neu wrth ysgrifennu nodyn mewn blwch pryder ar gyfer rhannu eu teimladau'n breifat. O wneud hyn, maent yn hyderus bod staff yn ymateb ar unwaith i'w pryderon ac yn eu cynorthwyo'n briodol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n ddinasyddion moesegol a gwybodus drwy ddangos ymwybyddiaeth gref o beth yw bod yn ffrind da, sy'n cyfrannu'n werthfawr at ethos teuluol yr ysgol.

Mae gan bron bob disgybl agwedd gadarnhaol at eu dysgu ac yn datblygu i fod yn ddisgyblion uchelgeisiol a mentrus sy'n barod i ddysgu. Mae disgyblion Blwyddyn 2 a 3 yn dangos brwdfrydedd heintus tuag at eu dysgu. Maent yn mwynhau'r gweithgareddau sy'n eu herio i wneud eu gorau, er enghraifft wrth efelychu gwaith artist enwog gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau'n gelfydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymroi'n chwilfrydig i'w dysgu yn ddiymdroi, ac yn awyddus i gwblhau tasgau. Maent yn cydweithio'n dda â'i gilydd ac yn canolbwyntio ar eu gweithgareddau am gyfnodau estynedig.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trafod eu gwaith a dysgu blaenorol yn hyderus. Maent yn rhoi cymorth gwerthfawr i'w gilydd yn ystod gweithgareddau dysgu, pan fo angen. Pan gânt y cyfle, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio adborth llafar ac ysgrifenedig yn briodol ar gyfer gwneud cynnydd yn eu dysgu wrth ymateb i sylwadau staff a'u cyfoedion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn elwa ar y cyfleoedd a gânt i benderfynu ar agweddau yr hoffent ddysgu mwy amdanynt, boed hynny wrth ddysgu'n annibynnol neu wrth gydweithio'n gynhyrchiol â'u cyfoedion. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn defnyddio eu medrau creadigol yn fedrus i raglennu argraffydd digidol 3D i greu modelau dychmygol o estroniaid o'r gofod. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddiddordeb yn y themâu maent yn eu dysgu ac yn ymgymryd â'r tasgau a ddarperir ar eu cyfer â brwdfrydedd. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth meithrin a derbyn yn archwilio'n frwdfrydig ac yn ceisio adnabod enwau blodau'r Gwanwyn sy'n tyfu ar gae'r ysgol.

Mae gan bron bob disgybl ddealltwriaeth dda o sut i wneud dewisiadau iach ynglŷn â bwyta a chadw'n heini. Maent yn siarad yn aeddfed am sut mae'r gwersi coginio yn

rhoi adnabyddiaeth dda iddynt o bwysigrwydd prydau bwyd iach a hylendid bwyd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfranogi'n egnïol wrth gymryd rhan mewn ystod dda o weithgareddau corfforol, er enghraifft gymnasteg, swmba a rhedeg o amgylch buarth yr ysgol. O ganlyniad, mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu ffitrwydd a'u lles corfforol. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth glir o sut i gadw'n ddiogel ar-lein trwy sesiynau dysgu priodol ac wrth dderbyn cyngor gan heddwes lleol.

Mae aelodau cynghorau amrywiol yr ysgol yn ysgwyddo eu cyfrifoldebau o ddifri, ac yn awyddus iawn i gyfrannu at welliannau yn yr ysgol. Er enghraifft, mae'r cyngor iaith wedi sicrhau bod cerddoriaeth Gymraeg i'w chlywed o amgylch yr ysgol yn ddyddiol. Trwy hyn, mae bron bob disgybl yn cael ei drochi yn y Gymraeg ac yn caffael geirfa a phatrymau iaith gwerthfawr o oedran cynnar. Yn ychwanegol, mae aelodau'r cyngor ysgol yn trefnu gwersi coginio misol tra bod aelodau'r cyngor eco yn harddu amgylchedd yr ysgol trwy blannu coed a llysiau. O ganlyniad i waith y cynghorau, mae llawer o ddisgyblion yn teimlo bod staff yn gwerthfawrogi a gweithredu ar eu barn, er enghraifft trwy ganiatáu iddynt archebu adnodd digidol yn dilyn codi arian ar ôl cwblhau her beicio 'Tour de Môn.'

Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae athrawon yn cynllunio cwricwlwm ysgogol a chyfredol sy'n cefnogi disgyblion i ymgysylltu'n llwyddiannus â'u dysgu. Mae hyn yn eu galluogi i ddatblygu a chymhwyso'u medrau mewn ystod gytbwys o gyd-destunau dros gyfnod, yn enwedig eu medrau digidol a rhifedd. Mae athrawon yn cynllunio themâu tymhorol cydlynus ac yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gyfrannu at beth a sut maent am ddysgu. Mae'r profiadau cyfoethog a ddarperir gan staff yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth a dealltwriaeth disgyblion, ac yn hyrwyddo a datblygu eu dysgu annibynnol yn fwriadus. O ganlyniad, mae'r amgylchedd ddysgu bwrpasol yn hybu gwerthoedd ac egwyddorion Cwricwlwm i Gymru yn llwyddiannus.

Mae athrawon yn gwneud defnydd pwrpasol o'r pentref a'r gymuned leol, sy'n gyfoethog o hanes, a thraddodiadau cyfoethog a chwedlonol yr ardal, fel sail i'r dysgu sy'n 'cychwyn wrth eu traed.' Mae staff yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion gydag ystod o ymwelwyr, ac ymweliadau â mannau o ddiddordeb lleol fel sbardun i'r gwaith thema. Er enghraifft, trefnir bod disgyblion yn ymweld â'r amgueddfa Ffiwsilwyr Brenhinol yng nghastell Caernarfon fel rhan o'r thema am yr Ail Ryfel Byd. O ganlyniad, mae athrawon yn sicrhau bod gan ddisgyblion wybodaeth a dealltwriaeth eang o'u hunaniaeth, eu Cymreictod, a'u lle o fewn eu cymuned leol, Cymru a'r byd ehangach. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fynychu cyrsiau preswyl sy'n eu cefnogi i fod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cynllunio ystod o weithgareddau effeithiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ar draws y cwricwlwm. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd, er enghraifft mae disgyblion Blwyddyn 2 a 3 yn ysgrifennu disgrifiad manwl am 'Y Trên Hud' a monolog diddorol am hanes Santes Dwynwen. Ar frig yr ysgol, mae athrawon yn datblygu medrau'r disgyblion yn briodol. Er enghraifft, mae disgyblion yn ysgrifennu llythyr cais ar gyfer cael eu cyfweld am swydd i fod yn ofodwr. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd cyson i'r

disgyblion hynaf ddatblygu eu medrau ysgrifennu'n estynedig mewn ystod gyfoethog o gyd-destunau ar draws y meysydd dysgu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau digidol disgyblion yn nodwedd arbennig o waith yr ysgol. O oedran cynnar, mae disgyblion derbyn a Blwyddyn 1 yn uwchlwytho a rhannu eu gwaith â staff yn annibynnol. Wrth i'r disgyblion aeddfedu, mae athrawon yn cynllunio profiadau difyr i ddatblygu eu medrau digidol. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn defnyddio dyfais raglenadwy yn fedrus i fesur faint o ddŵr sydd yn y pridd mewn arbrawf gwyddonol. Mae athrawon yn darparu ystod dda o weithgareddau i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd, er enghraifft mae disgyblion Blwyddyn 2 yn cyfranogi'n frwdfrydig mewn 'Helfa onglau sgwâr' gan ddefnyddio onglydd yn gywir i adnabod a mesur gwrthrychau yn yr ardaloedd dysgu tu allan a thu fewn.

Yn nosbarthiadau y disgyblion ieuengaf, mae egwyddorion y dysgu sylfaen wedi eu gwreiddio'n gadarn. Mae athrawon yn darparu ystod o weithgareddau dysgu diddorol sy'n cael eu cyflwyno mewn amgylchedd dysgu cyfoethog. Mae llawer o weithgareddau yn yr ardaloedd dysgu yn datblygu annibyniaeth disgyblion yn llwyddiannus, er enghraifft mae disgyblion Blwyddyn 1 yn mwynhau gwisgo i fyny a chanu anthem yr ysgol yn swynol yn yr ardal berfformio.

Mae perthynas waith effeithiol yn bodoli ymysg staff yr ysgol, sy'n meithrin ethos dysgu hapus a chadarnhaol ar gyfer y disgyblion. Mae'r holl staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn hynod effeithiol ac maent yn eu trin yn gyfartal a gyda pharch priodol. Maent yn defnyddio canmoliaeth ac adborth llafar yn bwrsasol er mwyn dathlu llwyddiannau a'u harwain at y camau nesaf yn eu dysgu. Mae'r athrawon a chymorthyddion dysgu yn gweithio ar y cyd yn hyfedr, ac yn adnabod anghenion y disgyblion yn dda ac yn ymateb yn effeithiol iddynt.

Mae athrawon yn gosod amcanion clir a phwrsasol i'r sesiynau dysgu, ac mae eglurder eu disgwyliadau'n cefnogi datblygiad medrau disgyblion yn fwriadus. Mae athrawon a chymorthyddion dysgu yn holi disgyblion yn fedrus i gyfoethogi eu dealltwriaeth a datblygu eu dysgu. Mae staff hefyd yn gwybod pryd i ymyrryd a phryd i adael i ddisgyblion ddyfalbarhau'n annibynnol. Pan gânt y cyfle, mae disgyblion yn asesu eu dysgu eu hunain a chynnig sylwadau ar waith eu cyfoedion. Mae staff yn cynnig adborth llafar perthnasol er mwyn annog disgyblion i ystyried yr hyn maent yn ei wneud yn dda a sut i wella eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw adborth ysgrifenedig athrawon yn gyson, ac nid yw bob amser yn cefnogi disgyblion i wella ansawdd eu gwaith.

Nodwedd arbennig o waith yr ysgol yw'r modd y mae athrawon a chymorthyddion dysgu yn annog disgyblion i ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg. Mae staff yn gweithio'n frwdfrydig ac angerddol i loywi Cymraeg llafar y disgyblion wrth siarad Cymraeg yn fedrus a chywir â nhw. Mae'r holl staff yn annog y disgyblion i ddefnyddio Cymraeg sy'n naturiol i'w hardal leol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn ddigymell ac yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau Cymraeg.

Mae athrawon yn asesu cynnydd a datblygiad unigolion a grwpiau penodol yn drylwyr. Mae hyn yn rhoi darlun defnyddiol iddynt o ddatblygiad bob disgybl a sut i gynllunio camau nesaf yn eu dysgu.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ddiogel, hapus a gofalgar ac mae'r gydberthynas rhwng y disgyblion â'i gilydd, y disgyblion a'r staff yn gryfder ac yn cyfrannu'n arbennig at awyrgylch deuluol yr ysgol. Mae'r parch a'r gofal gan staff yn nodwedd gref, sy'n effeithio'n gadarnhaol ar agweddau disgyblion, eu hymddygiad a'u parodrwydd i ddysgu.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn cefnogi anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus er mwyn eu cefnogi i ymgysylltu'n gadarnhaol â'u dysgu ac elwa ar yr amrywiaeth o gyfleoedd y mae'n eu cynnig. Mae sesiynau cefnogi sy'n canolbwyntio ar les disgyblion yn effeithiol sy'n cyfoethogi eu hunan-barch a'u medrau cymdeithasol yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth effeithiol i ddisgyblion ag ADY. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni cefnogi penodol a phwrpasol i wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae'r cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud defnydd da o'r gefnogaeth sydd ar gael gan asiantaethau allanol ac yn gweithredu trefn newydd y Ddeddf ADY yn effeithiol. Mae arweinwyr yn olrhain cynnydd disgyblion ADY mewn perthynas â'u targedau personol yn dda. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n briodol â rhieni'r disgyblion sydd ag ADY am eu cynnydd ac yn rhoi'r disgybl yn ganolog i'r broses gefnogi. O ganlyniad i fonitro a gwerthuso'r ddarpariaeth yn gyson, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ADY yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau.

Mae gan yr ysgol drefniadau cryf i hyrwyddo ymarfer corff a bwyta'n iach ymysg disgyblion. Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd dewis ffordd iach o fyw yn effeithiol, er enghraifft mae staff yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion goginio byrbrydau iach fel rhan o'r cwricwlwm. Trefnir ystod o gyfleoedd i ddatblygu ffitrwydd a medrau corfforol disgyblion drwy sesiynau fel gymnasteg, a chyfleoedd i gymryd rhan mewn ystod dda o gystadlaethau chwaraeon. Mae staff yn cynnig llawer o gyfleoedd i ddisgyblion fod yn weithgar ac i ysgwyddo cyfrifoldeb yn ystod y diwrnod ysgol, er enghraifft mae'r disgyblion hynaf yn gofalu am yr adnoddau digidol gan sicrhau eu bod yn cael eu gwefru'n gyson a'u cadw'n daclus.

Mae athrawon yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn sicrhau bod gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'r gwahaniaethau rhwng da a drwg, a beth mae'n ei olygu i fod yn ddinesydd da. Yn ogystal, mae'r disgyblion wedi cydweithio â bardd Cymreig adnabyddus i ysgrifennu gweddi newydd sy'n unigryw i'w hysgol. Mae'r disgyblion hynaf yn cymharu'n ddeallus sut mae crefydd yng Nghymru a Ffrainc yn debyg ac yn wahanol.

Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddysgu am waith pobl ddylanwadol yng Nghymru ac ar draws y byd, er enghraifft wrth ddysgu am Betty Campbell. Mae hyn yn eu helpu i barchu gwahaniaethau a'u datblygu i fod yn ddinasyddion moesegol a deallus. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o wahanol fathau o ffydd, er enghraifft wrth addysgu am wahanol wyliau fel Diwali a'r Holi, a thrwy greu lampau lliwgar i ddatlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. O ganlyniad, mae hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth o ddatliadau mewn diwylliannau a chrefyddau eraill.

Mae staff yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion gyfrannu at brosesau gwneud penderfyniadau o fewn yr ysgol. Er enghraifft, mae cynllun ailgylchu gwisg ysgol yn fuddiol, lle mae disgyblion yn dod â dillad wedi'u defnyddio i'r ysgol i gael eu golchi a'u dosbarthu eto i ddisgyblion eraill sydd eu hangen. Mae'r cyngor ysgol hefyd wedi trefnu diwrnod i ddathlu amrywiaeth yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r profiadau hyn yn cynorthwyo disgyblion i ymchwilio i faterion sy'n gysylltiedig â goddefgarwch, empathi a pharch at eraill. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer sicrhau prydlondeb a phresenoldeb cyson y disgyblion yn gadarn. Mae staff yn cadw cofnodion priodol o achosion o absenoldeb ac yn cysylltu â rhieni yn amserol i drafod unrhyw bryderon ynglŷn â phresenoldeb eu plant. Gwneir defnydd effeithiol o wasanaethau allanol i gefnogi hyn. Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer diogelwch disgyblion ac wedi sefydlu diwylliant cryf o ddiogelu ar draws yr ysgol. Mae trefniadau'r ysgol i ddiogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinyddiaeth ysbrydoledig, effeithiol ac ystyriol y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddi weledigaeth gadarn sy'n seiliedig ar gynnig pob cyfle posibl i baratoi 'plant Penc' ar gyfer bywyd tu allan i'r ysgol o fewn ei chymuned ddysgu ofalgar, deuluol a Chymreig. Mae'r pennaeth yn cyfleu'r weledigaeth honno'n llwyddiannus i'r staff, y disgyblion, y rhieni, y llywodraethwyr ac aelodau'r gymuned leol.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn sicrhau diwylliant cryf o ddiogelu disgyblion ac mae gan bob aelod o staff ddealltwriaeth gadarn o'r gweithdrefnau. Yn sgil hyn, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus i fod yn yr ysgol, yn arddangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac yn gwneud cynnydd cryf mewn ystod o fedrau yn ystod eu hamser yn yr ysgol.

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel o'i hun, y staff a'r disgyblion. Mae gofalu am les y staff a'r disgyblion yn ganolog i'w holl waith. Maent yn arddel gwerthoedd ac ymddygiad proffesiynol uchel sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at sicrhau bod yr ysgol yn hafan ddiogel a chartrefol sy'n rhoi bri ar les ac addysg ei disgyblion. O ganlyniad, mae ymddygiad bron bob disgybl yn gadarn.

Mae'r pennaeth yn dyrannu rolau a chyfrifoldeb yn addas ac yn dwyn staff i gyfrif am ansawdd ac effaith eu gwaith yn bwrpasol. Caiff y pennaeth ei chefnogi'n effeithlon gan dîm bach o staff sy'n cydweithio'n glos â'i gilydd er mwyn sicrhau gwelliannau parhaus. Fodd bynnag, nid yw cyfrifoldebau a dyletswyddau am rai agweddau penodol o waith yr ysgol wedi cael eu rhannu'n ddigon ystyriol.

Mae arweinwyr yn mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn dda. Ar draws yr ysgol, mae pwyslais cryf yn bodoli ar ddatblygu'r Gymraeg a diwylliant Cymreig ymysg disgyblion. Er enghraifft, mae'r disgyblion wedi cydweithio'n agos â bardd Cymreig adnabyddus i ysgrifennu 'Penillion Penc' am eu hysgol a'u cymuned. Yn ogystal, trefnir ymweliadau â mannau chwedlonol yr ardal er mwyn dod â'r hanesion yn fyw i'r disgyblion. O ganlyniad, mae'r profiadau hyn yn cryfhau eu hymdeimlad o berthyn i'r ysgol, i ymfalchïo yn eu hunaniaeth ac i ddatblygu eu balchder i fod yn siaradwyr Cymraeg hyderus.

Mae'r pennaeth yn sicrhau bod trefniadau hunanwerthuso manwl ar waith er mwyn gwerthuso'r dysgu a'r ddarpariaeth. Mae hi wedi datblygu amserlen glir a manwl sy'n helpu arwain prosesau hunanwerthuso a gwella'r ysgol. Mae'r pennaeth yn gwerthuso safon yr addysgu yn rheolaidd, ac mae staff yn defnyddio ffynonellau tystiolaeth amrywiol i gasglu a thrafod gwybodaeth berthnasol am gynnydd disgyblion a pherfformiad yr ysgol. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys craffu ar lyfrau disgyblion, a dadansoddi data mewnol ar gynnydd disgyblion yn fanwl. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ddarlun cytbwys o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu. Mae'r pennaeth a'r arweinwyr yn monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau gwella yn rheolaidd ac yn adrodd eu canfyddiadau i'r staff a'r llywodraethwyr yn effeithiol.

Mae'r corff llywodraethol yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n briodol, ac maent yn adnabod yr ysgol a'i chymuned yn dda. Ar y cyd â phennaeth ysgol gyfagos a'r swyddog rhanbarthol, maent yn cynnal teithiau dysgu gwerthfawr ac yn gwerthuso'r ddarpariaeth a safonau yn rheolaidd trwy graffu ar lyfrau ar y cyd â'r staff. Trwy dderbyn a thrafod adroddiadau trylwyr y pennaeth, maent yn herio'r pennaeth yn synhwyrol am faterion perthnasol, fel yr angen i ddatblygu medrau ysgrifennu estynedig y disgyblion hynaf, er enghraifft. O ganlyniad, mae'r corff llywodraethol yn adnabod cryfderau'r ysgol, a'i blaenoriaethau ar gyfer gwella, yn dda. Er hyn, nid yw aelodau'r corff bob amser yn darparu cefnogaeth briodol i'r pennaeth gyflawni ei dyletswyddau dysgu ac arwain yn llawn.

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn rheoli cyllid yr ysgol yn dda. Maent yn dyrannu'r grant datblygu disgyblion yn effeithiol i ddarparu cymorth ychwanegol i wella lles a medrau disgyblion, ac yn sicrhau bod gan yr ysgol ddigon o adnoddau o ansawdd da, sy'n diwallu anghenion disgyblion yn synhwyrol.

Mae'r corff llywodraethol yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, er enghraifft wrth annog disgyblion i fwyta ffrwythau yn ystod amseroedd egwyl, darparu sesiynau coginio, ac yfed dŵr o'r ffynnon.

Mae diwylliant ac ethos cadarnhaol yr ysgol yn hybu a chefnogi dysgu proffesiynol yr holl staff yn dda. Mae'r pennaeth yn cysylltu dysgu proffesiynol yn glir â chanfyddiadau hunanwerthuso a blaenoriaethau gwella'r ysgol. O ganlyniad, mae'r holl staff yn cael targedau unigol defnyddiol fel rhan o'r prosesau rheoli perfformiad trylwyr. Mae staff yn cael cyfleoedd cyson i fynychu hyfforddiant sy'n ateb gofynion eu datblygiad proffesiynol. Er enghraifft, mae aelod staff yn gweithredu fel 'hwylusydd digidol' ac yn hyfforddi staff ysgolion lleol eraill trwy gefnogi a chryfhau eu medrau cymhwysedd digidol.

Ar y cyfan, mae perthynas gynhyrchiol rhwng yr ysgol â rhieni. Mae'r Gymdeithas Rieni yn hynod weithgar yn codi arian i'r ysgol, er enghraifft trwy drefnu noson occsiwn a ffair Nadolig. Mae'r pennaeth a'r staff yn defnyddio dulliau cyfathrebu digidol yn bwrpasol, er enghraifft trwy ap a chyfryngau cymdeithasol, i hysbysu rhieni am ddigwyddiadau yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw dulliau cyfathrebu presennol yr ysgol yn ddigon eglur ac effeithiol bob tro i rieni adrodd am les, dysgu a phresenoldeb eu plant.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwranddo arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/05/2024